

#19

Profiad Unigolion

*Os yw'n bwysig i chi,
yna mae'n bwysig i
ni....*

Pam cynnal yr adolygiad hwn?

Pwrpas y thema:

Cael sicrwydd bod cwsmeriaid yn cael y lefelau gwasanaeth a ddisgwylir wrth ymwneud ag ateb fel unigolion

Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Drwy gydol mis Mai a mis Mehefin 2021

Dyma ddywedoch chi. . .


Diolch am eich cefnogaeth!

Cawsom wybodaeth gan 306 o'n cwsmeriaid

Dyma'r ymatebion a gafodd ein Tîm Cydlynu e2i:

- Gan ystyried eich cartref chi'n benodol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod eich landlord cymdeithasol yn darparu cartref sy'n ddiogel?**


Atebwyd gan: 206 Nid atebwyd gan: 0



2/ Rhaid i ateb fynd i mewn i'ch cartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rhai agweddau ar eich eiddo'n ddiogel i chi – sut rydych yn teimlo am y gwasanaeth hwn?

Atebwyd gan: 189

Nid atebwyd gan: 17



Atebion amrywiol oedd y rhai lle nad atebodd y cwsmer y cwestiwn, e.e. un o'r atebion a gafwyd oedd "Mae angen tŷ arna' i – o leiaf 2 ystafell wely."

Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym:

"Gwych, roeddem yn rhentu llety preifat o'r blaen, a doedd dim byd yn cael ei archwilio bryd hynny."

"Rwy'n deall bod yn rhaid i'r gwaith gael ei wneud, ond yn ystod yr argyfwng Covid doeddwn i ddim am adael pobl i mewn. Rwy'n gobeithio dod yn ôl i drefn yn fuan."

"R'ych chi'n wych – mor gwrtais bob amser ac yn gwneud eich gwaith yn dda. Mae'n gysur mawr."

"Cyfarpar diogelu personol da yn ystod y cyfyngiadau."

"Rwy'n hapus i weithwyr ateb ddod i mewn i'm cartref. Dwi ddim yn siŵr a ydw i am adael contractwyr i mewn."

"Rwy'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr iawn; mae'n gwneud i fi deimlo'n ddiogel."

"Dim problem, cyhyd â'n bod ni ar gael."

"Rwy'n falch eu bod yn cynnal archwiliadau'n rheolaidd. Mae gwybod eu bod wedi cymryd y cyfrifoldeb yn rhoi tawelwch meddwl."

"Rwy'n hapus â hynny, cyhyd â bod warden y cynllun yn bresennol ar y safle ar yr un pryd."

"Yn teimlo'n ddiogel iawn, ac mae pob aelod o staff yn dangos eu cardiau adnabod."

"Rwy'n teimlo yn lwcus o gael cynnig y gwasanaeth hwn."

"Archwiliad diogelwch – roeddent wedi gwisgo'r cyfarpar priodol ac roedd popeth yn ddiogel o ran Covid."

"Rydym yn gwybod ein bod yn cael ein cadw'n ddiogel."

"Da iawn – mae'r staff wedi bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol, felly nid oes unrhyw risgiau ar hyn o bryd."

"Braidd yn bryderus oherwydd rwyf wedi cael llythyrau ynglŷn â threfniadau gwarchod."


"Mae'n braf bod yn gynnes."

"Rwy'n cytuno â'r angen i ymweld er mwyn cynnal archwiliad. Ond byddwn yn hoffi pe bai modd i amser yr apwyntiad fod yn hyblyg, oherwydd oriau gwaith."

"A dweud y gwir, mae'n ardderchog! Rydych yn rhagorol pan fydd gen i unrhyw broblemau. Mae'r staff yn wych, yn gwrtais ac mor barod i helpu."

3/ Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r modd y mae eich landlord cymdeithasol yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?


Atebwyd gan: 206 Nid atebwyd gan: 0



4/ Os hoffech chi, mae croeso i chi sôn mwy yma am eich ateb i gwestiwn 3:


Atebwyd gan: 159

Nid atebwyd gan: 47




5/ I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad canlynol - "Rwy'n ymddiried yn fy landlord cymdeithasol"?

Atebwyd gan: 206 Nid atebwyd gan: 0



6/ I wneud yn siŵr ein bod yn clywed gan ystod eang o'n cwsmeriaid, nodwch i ba categori oedran yr ydych yn perthyn



Dyma wnaethom ni...

Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:

1. Gwnaethom ffonio 5 cwsmer, y gwnaeth eu sylwadau i ni deimlo nad oeddent yn hollol fodlon ag ymateb ateb i'w problemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Diben yr alwad oedd sicrhau bod swyddog tai yn gweithio'n effeithiol gyda'r cwsmer dan sylw.
2. Gwnaethom ffonio 5 cwsmer, y gwnaeth eu sylwadau i ni deimlo nad oeddent efallai wedi disgwyl ymweliadau gan ateb i gynnal archwiliadau diogelwch. Diben yr alwad oedd ein galluogi i asesu eu hanfodlonrwydd. Dywedodd 3 o'r 5 nad oedd ateb erioed wedi ymweld â nhw'n ddirybudd; nid oedd modd i ni siarad â'r pedwerydd cwsmer a dywedodd y pumed cwsmer nad oedd yn gallu cofio'r amgylchiadau.

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd i fod i gwrdd ar 14/12/21 am 10:00. Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn

Angen gwybod mwy neu godi mater?

Anfonwch neges ebost atom:

engage@atebgroup.co.uk

Ewch i'n gwefan: www.atebgroup.co.uk

Anfonwch air atom: **Tŷ Meyler, St Thomas Green, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1QP**

Ffoniwch ni neu anfonwch neges destun atom: **07500 446611**